**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Mehefin 10fed, 2024 am 7.30 y.h. yn Neuadd y Rhiw.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Mari Evans, Dewi Evans, Gwenllian Haf, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts, Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Emlyn Jones (Cymerodd y Cynghorydd Wenda Williams y gadair am eitem 9 yn unig)

**Roedd Alun Harrison o'r Ship yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod i drafod cwyn y conau o flaen y Ship:** Roedd Alun eisiau trafod beth oedd y broblem a sut oedd modd ei ddatrys. Mae Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu'n ôl i ddweud y bydden nhw'n rhoi arwydd 'dim parcio' i fyny ger y Ship.

Eglurodd Alun fyddai'n well ganddo gael llinellau melyn yno gyda'r ofn byddai pobl yn anwybyddu arwydd 'dim parcio'. Penderfynwyd mynd yn ôl at y cynghorydd sir Gareth Williams i ofyn iddynt ailfeddwl a chael aelod o Gyngor Gwynedd i ymweld ag Alun i drafod y ffordd ymlaen.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Wil Evans, Jaci Jones, Dafydd Williams, Gareth William a Robert Williams. Datganodd y Cynghorwr Emlyn Jones diddordeb yn eitem 9.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Ionawr 8fed, 2024:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:** Yr unig ateb dderbyniwyd oedd ynglŷn â'r awydd tu allan i'r Ship. Penderfynwyd gofyn am linellau melyn ar ôl trafod gydag Alun a chael aelod o'r cyngor i ymweld ag ef.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Bu Darren Gallagher ar y ffôn i ddweud bod y gwaith wedi bod yn mynd ymlaen ar yr eglwys yn y wythnosau diwethaf. Mae'r cwmni yswiriant wedi cadarnhau y byddant yn fodlon talu am y sgaffald os bydd yn cael mwy o wybodaeth a chyfiawnhad gan Gallaghers. Hoffai'r cyngor ddiolch i Dewi am ei waith efo'r Eglwys.

iii. **Y Fynwent** – Cafwyd cysylltiad gan aelod o'r cyhoedd drwy'r wefan, yn gofyn am fedd ei Mam oedd wedi ei chladdu yno yn 2007. Dangosai fod y wefan yn cael effaith, penderfynwyd ei fod yn syniad da i roi stori am yr eglwys ar y wefan a bydd y cynghorwr Dewi yn gallu ei roi at ei gilydd.

iv. **Y Cae Chwarae** – Archwiliad wedi ei chynnal a man bethau wedi codi. Mae darn o bren rhwng y lle chwarae a'r cwrt pêl rwyd angen ei godi, dyma oedd y peth mwyaf a gododd. Mae wedi mynd yn anodd iawn cael y pwyllgor at ei gilydd i greu ceisiadau grant a threfnu gweithgareddau codi arian.

**5) Gohebiaethau**

- Ardal Ni – e-bost gan Sian Parry, wedi'i yrru ymlaen er gwybodaeth.
- Ambiwlans Awyr Cymru – Deiseb ar-lein i'r Senedd er mwyn cael ymchwiliad cyhoeddus llawn i gau canolfannau Ambiwlans Awyr Cymru yn y canolbarth a'r gogledd - Er gwybodaeth ac os dymunir ei lofnodi.
- Ynni Llŷn - Cynnig ymweliadau cartref i unigolion i'w helpu gyda'u hanghenion ynni.- Er gwybodaeth

**6) 'Bollards' tu allan i Westy'r Ship yn Aberdaron:** Yn dilyn trafod gydag Alun Harrison o'r Ship ar ddechrau'r cyfarfod rydym wedi cytuno mae gofyn i Gyngor Gwynedd gysylltu gydag Alun a mynd allan i weld y broblem yw'r ffordd orau i symud ymlaen. Angen e-bostio Gareth Williams o'r cyngor sir yn ei ôl.

**7) Mantolen ariannol 2023-24:** Cytunodd pawb fod y ffigyrau yn gywir am y flwyddyn ariannol ac mae nawr yn bosib mynd ymlaen i yrru'r Awdit i Gyngor Gwynedd.

**8) Adroddiadau gan gynrychiolwyr ar gyrff allanol ac ethol cynrychiolwyr i gyrff allanol**
**a) Pwyllgor cae chwarae** – Popeth yn mynd yn iawn, wedi cael offer newydd yn y cae chwarae yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynghorydd Gwenllian yn hapus i barhau fel cynrychiolydd y cyngor ar y pwyllgor.

**b) Ysgol Crud y Werin:** Mae ymestyniad wedi cael ei gwblhau gyda thoiledau newydd yn y cefn a thoiledau anabl. Mae'r cynghorydd Gwenllian yn hapus i barhau yn gynrychiolydd y cyngor ar y pwyllgor.

**9) Cynllunio**
C24/0413/30/LL- Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.

**10) Ariannol**

*Derbyniadau*

| | |
|---|---|
| G W Parry (Ffioedd yr Eglwys) | £40 |

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5 |
| Nesta Roberts (CCTV ) | £13.10 |
| E.On (Trydan yr eglwys) | £12.28 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |
| Wicksteed (Archwiliad) | £198 |

**11) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Coeden yn dal i ddod i'r lon yn is lawr o'r hen siop lon Pencaerau.

2) Mae'r cyngor yn ddiolchgar am gael ail wneud y lon rhwng Pencaerau a Rhoshirwaun, ond hoffwn holi pam nad yw wedi cael ei wneud gyda thar.

3) Mae conau ar hyd y lon o Ysgol Llidiarau hyd at lon cae du, ac maent yn cael eu chwythu lawr pan mae yna wynt. Does dim gwaith yn cael ei wneud yna felly ydi hi'n bosib i rain gael eu casglu.

4) Mae torri gwair yn yr ardal 30mya ar y ffordd i mewn i Aberdaron wedi ei wneud yn wael iawn ac mae lot o fannau heb eu torri.

5) Roedd Dwr Cymru wedi cau'r lon yn Rhiw wrth y groes ffordd a doedd dim arwydd yn cynnig gwyriad i fynd heibio. Eisiau holi Dwr Cymru pam doedd hyn ddim yn ei le.

6) Problemau parcio yn Aberdaron angen cysylltu gyda Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi am rhywun yno i helpu gyda parcio.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Gorffennaf 8fed, 2024**

**yn Nghanolfan Deunant am 7.30y.h.**